Gwnaed yr Offeryn Statudol hwn o ganlyniad i wallau yn O.S. 2024/924 (Cy. 151), O.S. 2024/929 (Cy. 154) ac yn O.S. 2024/930 (Cy. 155) ac fe'i dyroddir yn rhad ac am ddim i bawb y gwyddys iddynt gael yr Offerynnau Statudol hynny.

This Statutory Instrument has been made in consequence of defects in S.I. 2024/924 (W. 151), S.I. 2024/929 (W. 154) and in S.I. 2024/930 (W. 155) and is being issued free of charge to all known recipients of those Statutory Instruments.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2024 Rhif 1258 (Cy. 211)

YR AMGYLCHEDD HANESYDDOL, CYMRU

Rheoliadau'r Amgylchedd Hanesyddol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024

2024 No. 1258 (W. 211)

HISTORIC ENVIRONMENT, WALES

The Historic Environment (Miscellaneous Amendments) (Wales) Regulations 2024

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Gwnaeth Rheoliadau Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 (Darpariaeth Ganlyniadol) (Is-ddeddfwriaeth) 2024 ddiwygiadau i is-ddeddfwriaeth sy'n ganlyniadol ar Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023. Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud mân ddiwygiadau i is-ddeddfwriaeth sy'n cywiro gwallau, neu'n egluro darpariaeth a wnaed, yn y Rheoliadau hynny.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn gwneud mân ddiwygiadau i Reoliadau Henebion Cofrestredig (Cytundebau Partneriaethau) (Cymru) 2024 a Rheoliadau Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth (Gweithdrefn a Chyfradd Llog) (Cymru) 2024.

Mae rheoliad 2 yn diwygio Rheoliadau Coedwigaeth (Cwympo Coed) 1979.

Mae rheoliad 3 yn diwygio Gorchymyn Ardaloedd o Bwysigrwydd Archaeolegol (Hysbysiad o Weithrediadau) (Esemptio) 1984.

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

The Historic Environment (Wales) Act 2023 (Consequential Provision) (Secondary Legislation) Regulations 2024 made amendments to secondary legislation which are consequential on the Historic Environment (Wales) Act 2023. These Regulations make minor amendments to secondary legislation which correct errors, or clarify provision made, in those Regulations.

These Regulations also make minor amendments to the Scheduled Monuments (Partnership Agreements) (Wales) Regulations 2024 and the Listed Buildings and Conservation Areas (Procedure and Interest Rate) (Wales) Regulations 2024.

Regulation 2 amends the Forestry (Felling of Trees) Regulations 1979.

Regulation 3 amends the Areas of Archaeological Importance (Notification of Operations) (Exemption) Order 1984.

Mae rheoliad 4 yn gwneud diwygiadau i Reoliadau Ceisiadau Trafnidiaeth a Gweithfeydd (Gweithdrefn Adeiladau Rhestredig, Ardaloedd Cadwraeth a Henebion Hynafol) 1992. Maent yn egluro sut y mae Rheoliadau Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth (Gweithdrefn a Chyfradd Llog) (Cymru) 2024 yn gweithredu pan fo cais wedi ei wneud o dan y ddwy set o Reoliadau.

Mae rheoliadau 5 i 7 yn gwneud diwygiadau i'r Rheoliadau a ganlyn er mwyn sicrhau cysondeb rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg—

- Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Adolygiadau Amhenderfynedig o Hen Ganiatadau Mwynau) (Cymru) 2009,
- Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012, a
- Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016, yn y drefn honno.

Mae rheoliad 8 yn ail-wneud diwygiad i Reoliadau Cynllunio Seilwaith (Partïon a chanddynt Fuddiant a Darpariaethau Rhagnodedig Amrywiol) 2015 fel bod rhestr o ddeddfwriaeth sylfaenol mewn trefn gronolegol.

Mae rheoliad 9 yn egluro diwygiad i Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ceisiadau Atgyfeiriedig a Gweithdrefn Apelau) (Cymru) 2017.

Mae rheoliad 10 yn gwneud diwygiadau i Reoliadau Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 (Darpariaeth Ganlyniadol) (Is-ddeddfwriaeth) 2024 sy'n ganlyniadol ar reoliadau 2 a 3 o'r Rheoliadau hyn.

Mae rheoliad 11 yn diwygio testun Cymraeg Rheoliadau Henebion Cofrestredig (Cytundebau Partneriaethau) (Cymru) 2024 er mwyn cywiro gwall.

Mae rheoliad 12 yn diwygio testun Saesneg Rheoliadau Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth (Gweithdrefn a Chyfradd Llog) (Cymru) 2024 er mwyn cywiro gwall.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Regulation 4 makes amendments to the Transport and Works Applications (Listed Buildings, Conservation Areas and Ancient Monuments Procedure) Regulations 1992. They clarify the operation of the Listed Buildings and Conservation Areas (Procedure and Interest Rate) (Wales) Regulations 2024 where an application is made under both sets of Regulations.

Regulations 5 to 7 make amendments to the following Regulations to ensure consistency between the Welsh and English texts—

- the Town and Country Planning (Environmental Impact Assessment) (Undetermined Reviews of Old Mineral Permissions) (Wales) Regulations 2009,
- the Town and Country Planning (Development Management Procedure) (Wales) Order 2012, and
- the Developments of National Significance (Procedure) (Wales) Order 2016, respectively.

Regulation 8 remakes an amendment to the Infrastructure Planning (Interested Parties and Miscellaneous Prescribed Provisions) Regulations 2015 so that a list of primary legislation is in chronological order.

Regulation 9 clarifies an amendment to the Town and Country Planning (Referred Applications and Appeals Procedure) (Wales) Regulations 2017.

Regulation 10 makes amendments to the Historic Environment (Wales) Act 2023 (Consequential Provision) (Secondary Legislation) Regulations 2024 which are consequential on regulations 2 and 3 of these Regulations.

Regulation 11 amends the Welsh text of the Scheduled Monuments (Partnership Agreements) (Wales) Regulations 2024 to correct an error.

Regulation 12 amends the English text of the Listed Buildings and Conservation Areas (Procedure and Interest Rate) (Wales) Regulations 2024 to correct an error.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations.

Gwnaed yr Offeryn Statudol hwn o ganlyniad i wallau yn O.S. 2024/924 (Cy. 151), O.S. 2024/929 (Cy. 154) ac yn O.S. 2024/930 (Cy. 155) ac fe'i dyroddir yn rhad ac am ddim i bawb y gwyddys iddynt gael yr Offerynnau Statudol hynny.

This Statutory Instrument has been made in consequence of defects in S.I. 2024/924 (W. 151), S.I. 2024/929 (W. 154) and in S.I. 2024/930 (W. 155) and is being issued free of charge to all known recipients of those Statutory Instruments.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2024 Rhif 1258 (Cy. 211)

YR AMGYLCHEDD HANESYDDOL, CYMRU

Rheoliadau'r Amgylchedd Hanesyddol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024

2024 No. 1258 (W. 211)

HISTORIC ENVIRONMENT, WALES

The Historic Environment (Miscellaneous Amendments) (Wales) Regulations 2024

Gwnaed	*26 Tachwedd 2024*
Gosodwyd gerbron Senedd Cymru	*29 Tachwedd 2024*
Yn dod i rym	*31 Rhagfyr 2024*

Made	*26 November 2024*
Laid before Senedd Cymru	*29 November 2024*
Coming into force	*31 December 2024*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 26(5)(b), 91(1) a (2), 92(2), 96, 97, 209(2), 211(3)(a) a (4) o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred on them by sections 26(5)(b), 91(1) and (2), 92(2), 96, 97, 209(2), 211(3)(a) and (4) of the Historic Environment (Wales) Act 2023(**1**), make the following Regulations.

RHAN 1

Enwi a dod i rym

Enwi a dod i rym

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Amgylchedd Hanesyddol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 31 Rhagfyr 2024.

PART 1

Title and coming into force

Title and coming into force

1.—(1) The title of these Regulations is the Historic Environment (Miscellaneous Amendments) (Wales) Regulations 2024.

(2) These Regulations come into force on 31 December 2024.

(**1**) 2023 dsc 3.

(**1**) 2023 asc 3.

RHAN 2

Diwygiadau

Rheoliadau Coedwigaeth (Cwympo Coed) 1979

2. Yn Atodlen 2 i Reoliadau Coedwigaeth (Cwympo Coed) 1979(**1**), ym mharagraff (i), ar ôl "1990" mewnosoder "or under section 158 of the Historic Environment (Wales) Act 2023".

Gorchymyn Ardaloedd o Bwysigrwydd Archaeolegol (Hysbysiad o Weithrediadau) (Esemptio) 1984

3. Yn erthygl 1(2) o Orchymyn Ardaloedd o Bwysigrwydd Archaeolegol (Hysbysiad o Weithrediadau) (Esemptio) 1984(**2**), hepgorer "or Wales".

Rheoliadau Ceisiadau Trafnidiaeth a Gweithfeydd (Gweithdrefn Adeiladau Rhestredig, Ardaloedd Cadwraeth a Henebion Hynafol) 1992

4. Yn Atodlen 1A i Reoliadau Ceisiadau Trafnidiaeth a Gweithfeydd (Gweithdrefn Adeiladau Rhestredig, Ardaloedd Cadwraeth a Henebion Hynafol) 1992(**3**), ym mharagraff 1—

(a) yn is-baragraff (e), yn lle'r geiriau o "after paragraph (3)" hyd at "yw—" rhodder "in regulation 6, after paragraph (5) there were inserted—

"(6) At ddiben y rheoliad hwn—

ystyr "cais cydredol" ("*concurrent application*") yw cais a wneir o dan adran 6 o Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992, sy'n ymwneud â chynigion y mae rhoi cydsyniad adeilad rhestredig neu gydsyniad ardal gadwraeth yn ofynnol ar eu cyfer;

ystyr perchennog ("*owner*") yw—";

(b) yn is-baragraff (f), yn lle'r geiriau o "after paragraph (3)" hyd at "means—" rhodder "in regulation 6, after paragraph (5) there were inserted—

"(6) For the purposes of this regulation—

"concurrent application" ("*cais cydredol*") means an application made under section 6 of the Transport and Works Act 1992,

(**1**) O.S. 1979/791, a ddiwygiwyd gan O.S. 1987/632 ac O.S. 2002/226; mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**2**) O.S. 1984/1286.
(**3**) O.S. 1992/3138, a ddiwygiwyd gan O.S. 2024/930 (Cy. 155); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

PART 2

Amendments

The Forestry (Felling of Trees) Regulations 1979

2. In Schedule 2 to the Forestry (Felling of Trees) Regulations 1979(**1**), in paragraph (i), after "1990" insert "or under section 158 of the Historic Environment (Wales) Act 2023".

The Areas of Archaeological Importance (Notification of Operations) (Exemption) Order 1984

3. In article 1(2) of the Areas of Archaeological Importance (Notification of Operations) (Exemption) Order 1984(**2**), omit "or Wales".

The Transport and Works Applications (Listed Buildings, Conservation Areas and Ancient Monuments Procedure) Regulations 1992

4. In Schedule 1A to the Transport and Works Applications (Listed Buildings, Conservation Areas and Ancient Monuments Procedure) Regulations 1992(**3**), in paragraph 1—

(a) in sub-paragraph (e), for the words from "after paragraph (3)" to "yw—" substitute "in regulation 6, after paragraph (5) there were inserted—

"(6) At ddiben y rheoliad hwn—

ystyr "cais cydredol" ("*concurrent application*") yw cais a wneir o dan adran 6 o Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992, sy'n ymwneud â chynigion y mae rhoi cydsyniad adeilad rhestredig neu gydsyniad ardal gadwraeth yn ofynnol ar eu cyfer;

ystyr perchennog ("*owner*") yw—";

(b) in sub-paragraph (f), for the words from "after paragraph (3)" to "means—" substitute "in regulation 6, after paragraph (5) there were inserted—

"(6) For the purposes of this regulation—

"concurrent application" ("*cais cydredol*") means an application made under section 6 of the Transport and Works Act 1992,

(**1**) S.I. 1979/791, amended by S.I. 1987/632 and S.I. 2002/226; there are other amending instruments but none is relevant to these Regulations.
(**2**) S.I. 1984/1286.
(**3**) S.I. 1992/3138, amended by S.I. 2024/930 (W. 155); there are other amending instruments but none is relevant to these Regulations.

relating to proposals for which the granting of listed building consent or conservation consent is required;

"owner" ("*perchennog*") means—";

(c) yn is-baragraff (i)(iii), ym mharagraff (5) a fewnosodwyd, yn lle'r geiriau o "ystyr "cais cydredol"" hyd at y diwedd, rhodder "mae i "cais cydredol" yr un ystyr ag yn rheoliad 6.";

(d) yn is-baragraff (j)(iii), ym mharagraff (5) a fewnosodwyd, yn lle'r geiriau o "means" hyd at y diwedd, rhodder "has the same meaning as in regulation 6."

relating to proposals for which the granting of listed building consent or conservation consent is required;

"owner" ("*perchennog*") means—";

(c) in sub-paragraph (i)(iii), in inserted paragraph (5), for the words from "ystyr "cais cydredol"" to the end, substitute "mae i "cais cydredol" yr un ystyr ag yn rheoliad 6.";

(d) in sub-paragraph (j)(iii), in inserted paragraph (5), for the words from "means" to the end substitute "has the same meaning as in regulation 6."

Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Adolygiadau Amhenderfynedig o Hen Ganiatadau Mwynau) (Cymru) 2009

5. Yn rheoliad 2(1) o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Adolygiadau Amhenderfynedig o Hen Ganiatadau Mwynau) (Cymru) 2009(**1**), yn y testun Cymraeg, yn is-baragraff (dd) o'r diffiniad o "ardal sensitif", yn lle "yn yr ystyr a roddir i "scheduled monument" yn" rhodder "o fewn ystyr".

The Town and Country Planning (Environmental Impact Assessment) (Undetermined Reviews of Old Mineral Permissions) (Wales) Regulations 2009

5. In regulation 2(1) of the Town and Country Planning (Environmental Impact Assessment) (Undetermined Reviews of Old Mineral Permissions) (Wales) Regulations 2009(**1**), in the Welsh text, in sub-paragraph (dd) of the definition of "ardal sensitif", for "yn yr ystyr a roddir i "scheduled monument" yn" substitute ""o fewn ystyr".

Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012

6. Yn Atodlen 4 i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012(**2**), yn y testun Cymraeg, ar ôl y tabl, o dan y pennawd "Dehongli'r Tabl", ym mharagraff (h)(i), yn lle "yr ystyr a roddir i "scheduled monument"" rhodder "("*scheduled monument*") yr un ystyr ag".

The Town and Country Planning (Development Management Procedure) (Wales) Order 2012

6. In Schedule 4 to the Town and Country Planning (Development Management Procedure) (Wales) Order 2012(**2**), in the Welsh text, after the table, under the heading "Dehongli'r Tabl", in paragraph (h)(i), for "yr ystyr a roddir i "scheduled monument"" substitute "("*scheduled monument*") yr un ystyr ag".

Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016

7. Yn Atodlen 5 i Orchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016(**3**), yn y testun Cymraeg, ar ôl y tabl, o dan y pennawd "Dehongli'r Tabl", ym mharagraff (d)(i), yn lle "yr un ystyr ag a roddir i "scheduled monument"" rhodder "("*scheduled monument*") yr un ystyr ag".

The Developments of National Significance (Procedure) (Wales) Order 2016

7. In Schedule 5 to the Developments of National Significance (Procedure) (Wales) Order 2016(**3**), in the Welsh text, after the table, under the heading "Dehongli'r Tabl", in paragraph (d)(i), for "yr un ystyr ag a roddir i "scheduled monument"" substitute "("*scheduled monument*") yr un ystyr ag".

(**1**) O.S. 2009/3342 (Cy. 293), a ddiwygiwyd gan O.S. 2024/924 (Cy. 151); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**2**) O.S. 2012/801 (Cy. 110); mae'r diwygiadau perthnasol i'w cael yn O.S. 2016/59 (Cy. 29) ac O.S. 2024/924 (Cy. 151).
(**3**) O.S. 2016/55 (Cy. 25); mae'r diwygiadau perthnasol i'w cael yn O.S. 2019/290 (Cy. 68) ac O.S. 2024/924 (Cy. 151).

(**1**) S.I. 2009/3342 (W. 293), amended by S.I. 2024/924 (W. 151); there are other amending instruments but none is relevant to these Regulations.
(**2**) S.I. 2012/801 (W. 110); relevant amendments are in S.I. 2016/59 (W. 29) and S.I. 2024/924 (W. 151).
(**3**) S.I. 2016/55 (W. 25); relevant amendments are in S.I. 2019/290 (W. 68) and S.I. 2024/924 (W. 151).

Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Partïon a chanddynt Fuddiant a Darpariaethau Rhagnodedig Amrywiol) 2015

8. Yn Rhan 2 o Atodlen 2 i Reoliadau Cynllunio Seilwaith (Partïon a chanddynt Fuddiant a Darpariaethau Rhagnodedig Amrywiol) 2015(**1**)—

(a) hepgorer y cofnod ar gyfer "Historic Environment (Wales) Act 2023" a'r testun yn y golofn gyfatebol;

(b) ar ôl y cofnod ar gyfer "Countryside and Rights of Way Act 2000", mewnosoder—

"*Historic Environment (Wales) Act 2023*	A consent under section 12 and Schedule 3 (authorisation of classes of works) A consent under section 13 (authorisation of works by scheduled monument consent)".

The Infrastructure Planning (Interested Parties and Miscellaneous Prescribed Provisions) Regulations 2015

8. In Part 2 of Schedule 2 to the Infrastructure Planning (Interested Parties and Miscellaneous Prescribed Provisions) Regulations 2015(**1**)—

(a) omit the entry for the Historic Environment (Wales) Act 2023 and the text in the corresponding column;

(b) after the entry for the Countryside and Rights of Way Act 2000, insert—

"*Historic Environment (Wales) Act 2023*	A consent under section 12 and Schedule 3 (authorisation of classes of works) A consent under section 13 (authorisation of works by scheduled monument consent)".

Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ceisiadau Atgyfeiriedig a Gweithdrefn Apelau) (Cymru) 2017

9. Yn rheoliad 4A o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ceisiadau Atgyfeiriedig a Gweithdrefn Apelau) (Cymru) 2017(**2**)—

(a) yn lle "reoliadau 4" rhodder "reoliad 4";

(b) yn lle "na 5" rhodder "na rheoliad 5".

The Town and Country Planning (Referred Applications and Appeals Procedure) (Wales) Regulations 2017

9. In regulation 4A of the Town and Country Planning (Referred Applications and Appeals Procedure) (Wales) Regulations 2017(**2**)—

(a) for "regulations 4" substitute "regulation 4";

(b) for "and 5" substitute "and regulation 5".

Rheoliadau Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 (Darpariaeth Ganlyniadol) (Is-ddeddfwriaeth) 2024

10. Yn Rheoliadau Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 (Darpariaeth Ganlyniadol) (Is-ddeddfwriaeth) 2024(**3**), hepgorer rheoliadau 2 a 6, a'r penawdau italig o'u blaenau.

The Historic Environment (Wales) Act 2023 (Consequential Provision) (Secondary Legislation) Regulations 2024

10. In the Historic Environment (Wales) Act 2023 (Consequential Provision) (Secondary Legislation) Regulations 2024(**3**), omit regulations 2 and 6, and the italic headings before them.

Rheoliadau Henebion Cofrestredig (Cytundebau Partneriaethau) (Cymru) 2024

11. Yn rheoliad 3(5)(b) o Reoliadau Henebion Cofrestredig (Cytundebau Partneriaethau) (Cymru) 2024(**4**), yn y testun Cymraeg, yn lle "fuddiant" rhodder "ddiddordeb".

The Scheduled Monuments (Partnership Agreements) (Wales) Regulations 2024

11. In regulation 3(5)(b) of the Scheduled Monuments (Partnership Agreements) (Wales) Regulations 2024(**4**), in the Welsh text, for "fuddiant" substitute "ddiddordeb".

(**1**) O.S. 2015/462, a ddiwygiwyd gan O.S. 2024/924 (Cy. 155); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**2**) O.S. 2017/544 (Cy. 121), a ddiwygiwyd gan O.S. 2024/924 (Cy. 155).
(**3**) O.S. 2024/924 (Cy. 151).
(**4**) O.S. 2024/929 (Cy. 154).

(**1**) S.I. 2015/462, amended by S.I. 2024/924 (W. 155); there are other amending instruments but none is relevant to these Regulations.
(**2**) S.I. 2017/544 (W. 121), amended by S.I. 2024/924 (W. 155).
(**3**) S.I. 2024/924 (W. 151).
(**4**) S.I. 2024/929 (W. 154).

Rheoliadau Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth (Gweithdrefn a Chyfradd Llog) (Cymru) 2024

12. Yn Atodlen 2 i Reoliadau Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth (Gweithdrefn a Chyfradd Llog) (Cymru) 2024(**1**), yn y testun Saesneg, ym mharagraff 6—

(a) yn y geiriau o flaen is-baragraff (a), hepgorer "that the building and the associated land";

(b) ar ddechrau paragraff (a), mewnosoder "that the building and the associated land";

(c) ar ddechrau paragraff (b), mewnosoder "that the building and the associated land".

The Listed Buildings and Conservation Areas (Procedure and Interest Rate) (Wales) Regulations 2024

12. In Schedule 2 to the Listed Buildings and Conservation Areas (Procedure and Interest Rate) (Wales) Regulations 2024(**1**), in the English text, in paragraph 6—

(a) in the words before sub-paragraph (a), omit "that the building and the associated land";

(b) at the beginning of paragraph (a), insert "that the building and the associated land";

(c) at the beginning of paragraph (b), insert "that the building and the associated land".

Jack Sargeant

Y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol, o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, un o Weinidogion Cymru
26 Tachwedd 2024

Minister for Culture, Skills and Social Partnership, under the authority of the Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning, one of the Welsh Ministers
26 November 2024

©℗Hawlfraint y Goron 2024

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Saul Nassé, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd Deddfau Senedd y Brenin.

© Crown copyright 2024

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Saul Nassé, Controller of His Majesty's Stationery Office and King's Printer of Acts of Parliament.

(**1**) O.S. 2024/930 (Cy. 155).

(**1**) S.I. 2024/930 (W. 155).

ISBN 978-0-348-39633-1

£8.14

http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2024/1258